Wellesley Cosby Bailey 1846–1937

Sylfaenydd y Genhadaeth i'r Gwahangleifion

Ganwyd Wellesley Cosby Bailey ar 28 Ebrill 1846 yn Abbeyleix, de-orllewin Dulyn, lle roedd ei dad yn gweithio fel asiant i Stad Stradballey. Bedyddiwyd ef ynghyd â'i dri brawd yn Eglwys Anglicanaidd Iwerddon ac fe ddaeth i'r bywyd pan oedd yn ugain oed. Aeth am gyfnod byr i Awstralia i geisio gwneud ei ffortiwn ond aeth ei holl gynlluniau i'r gwellt a dychwelodd i Iwerddon.

Wedi iddo ddychwelyd credai y byddai Duw yn rhoi arweiniad iddo ynglŷn â'r hyn yr oedd i fod i'w wneud. Hwyliodd i India lle roedd ei frawd yn swyddog yn y fyddin. Ei fwriad cyntaf oedd dysgu Hindi a mynd yn heddwas, ond nid felly y bu. Tra oedd yn aros yng nghartref y cenhadwr Almaenig y Parch. Reuther teimlodd faich cynyddol dros y tlodion ac ystyriodd efallai fod Duw yn ei alw i fod yn genhadwr yn hytrach na heddwas. Gwnaeth gais i'r Genhadaeth Bresbyteraidd Americanaidd i fod yn athro yn eu hysgol yn Ambala, ac fe'i derbyniwyd. Yno, daeth o dan ddylanwad y Parch. Ddr J. H. Morrison oedd yn ddyn duwiol a gweddigar a chydag ef yr ymwelodd â lloches i wahangleifion am y tro cyntaf. (Ers y dyddiau cynnar mae Cristnogion wedi bod yn cynorthwyo gwahangleifion. Yn y bedwaredd ganrif agorwyd ysbyty iddynt yng Nghesarea [Cappadocia] dan arweiniad yr Esgob Basil.) Cyffyrddodd yr hyn a welodd Bailey ef yn ddwfn yn ei galon a dywedodd, 'Os oes unrhyw waith Crist-debyg i'w wneud ar y ddaear, dyma fo, mynd i blith y dioddefwyr hyn a rhannu gyda hwy gysur yr Efengyl.'

Ymwelai'n gyson â'r lloches gan ddod i ddeall beth oedd anghenion y gwahangleifion. Sylweddolodd fod arnynt angen amodau byw gwell, bwyd maethlon, dillad a gofal meddygol yn ogystal â'r Efengyl.

Ym 1871 daeth ei ddyweddi Alice Grahame ato ac wedi iddynt briodi bu'r ddau ohonynt yn cynorthwyo yn y lloches. Ym 1873 oherwydd salwch Alice dychwelasant i Iwerddon. Tra oeddent yno siaradodd

Wellesley mewn cyfarfod yn Nhŷ Cwrdd y Crynwyr yn Nulyn am y gwaith. Yno yr oedd y chwiorydd Pim, tair chwaer a gyffyrddwyd gan ei anerchiad. Addawsant gyfrannu o leiaf £30 yn flynyddol tuag at y gwaith. Agorodd Bailey gyfrif banc yn dwyn yr enw 'Gwahangleifion yn India'. Ymunodd â Chymdeithas Genhadol Eglwys yr Alban ym 1875 ac fe'i hanfonwyd i Chamba yn yr India ar odre Mynyddoedd yr Himalaya. Yno sefydlasant loches i wahangleifion gydag ychydig nawdd gan y llywodraeth. Agorodd ganolfannau eraill hefyd yn Sabutha ger Bryniau Simla a Wazirabad. Erbyn hyn yr oedd llawer o fudiadau eraill yn cysylltu gydag ef er mwyn manteisio ar ei wybodaeth a'i arbenigedd. Ym 1879 symudodd i'r Alban a chael ei benodi yn Ysgrifennydd cyntaf Mission to Lepers in India a thyfodd y gwaith. Sefydlwyd cartref yn Burma ym 1889 ac yn Hangchow yn China a daeth ceisiadau am gymorth o Japan, De Affrica, De America, Sumatra a Chorea. Trwy ei waith llwyddwyd i helpu llawer o ddioddefwyr yn gorfforol ac ysbrydol ond hefyd aethpwyd i'r afael â'r rhagfarn gymdeithasol oedd tuag at wahangleifion.

Heddiw dywedir bod cynifer â 12 miliwn o bobl yn dioddef o'r gwahanglwyf a dim ond 3 miliwn ohonynt yn derbyn triniaeth.